Cabinet Office

# Pwerau Cosb Sifil yr Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus (PSFA): Ymgynghoriad Cod

Ymarfer

Dyddiad cau: 27 Chwefror 2026

Government of the United Kingdom

# Ymgynghoriad ar Bwerau Cosb Sifil yr Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus: Cod Ymarfer

Cyflwynwyd i'r Senedd gan Josh Simons, Ysgrifennydd Seneddol i Swyddfa'r Cabinet trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Rhagfyr 2025

© Hawlfraint y goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3. Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti y bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn https://www.gov.uk/guidance/contact-the-cabinet-office.

Argraffwyd yn y DU gan Swyddfa'r Cabinet ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Ymgynghoriad ar Bwerau Cosb Sifil PSFA: Cod Ymarfer

## Am yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghgoriad hwn yn ceisio adborth ar y Cod Ymarfer drafft fydd yn nodi sut y gweinyddir pwerau cosb sifil yr Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus (PSFA) a ddarperir gan y Ddeddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adfer) (PAFER) 2025

## Cwmpas Daearyddol

Cymru a Lloegr

## Sut i ymateb

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn ar blatfform arolwg ar-lein o'r enw SmartSurvey. I ymateb i'r ymgynghoriad, defnyddiwch y ddolen we ganlynol:

Dolen Arolwg

Os, am unrhyw reswm, nad ydych yn gallu cwblhau'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r platfform ar-lein, cysylltwch â **psfa@cabinetoffice.gov.uk** i ofyn am fersiwn Dogfen Word o'r templed ymateb.

Fel arall, gallwch bostio eich ymateb atom a'r teitl, "Ymgynghoriad PAFER PSFA " i:

The Public Sector Fraud Authority
Cabinet Office
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ

## Ymateb

Bydd y llywodraeth yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar GOV.UK o fewn 12 wythnos ar ôl ei gau. Os, am unrhyw reswm, nad ydym yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos, byddwn yn darparu esboniad ar y dudalen ymgynghori ar GOV.UK am y rheswm pam nad yw hyn yn bosibl.

## Cefndir

Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â gallu'r llywodraeth i ymateb i dwyll sector cyhoeddus trwy roi pwerau newydd i'r PSFA ddilyn camau troseddol a sifil. Rhoddir cosbau am dwyll a diffyg cydymffurffio â rhannu a chasglu gwybodaeth, a mesurau adfer dyled o fewn y Ddeddf. Mae'r Cod Ymarfer yn amlinellu sut y bydd y cosbau hyn yn cael eu pennu a'u gweinyddu.

Mae cyflwyno trefn cosbau sifil gadarn yn dangos bod canlyniadau ystyrlon am dorri'r gyfraith hyd yn oed pan nad yw erlyniad troseddol yn briodol nac yn bosibl. Bydd cosbau'n ataliad pwysig er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn erbyn y sector cyhoeddus ac yn anfon neges glir at dwyllwyr fod canlyniadau i'w gweithredoedd. Mae cosbau sifil yn cynnig llwybr amgen i erlyniad troseddol, gan helpu tynnu rhywfaint o'r baich oddi ar y llysoedd trwy gynnig datrysiadau amgen i achosion twyll. Gellir gosod cosbau yn achos unrhyw dwyll sy'n codi mewn unrhyw adran o'r llywodraeth neu gorff cyhoeddus ond nid Cyllid a Thollau EF (CThEF) na'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Bydd hyn yn galluogi'r PSFA i ymateb yn briodol i ffeithiau achos, delio â rhagor o achosion, a gweithredu'n gyflym yn erbyn gweithgarwch twyllodrus a'i atal o fewn y sector cyhoeddus.

## Gwybodaeth sylfaenol

Croesewir sylwadau gan gymdeithas sifil, y sector preifat, awdurdodau cyhoeddus, yn ogystal â chyrff proffesiynol, grwpiau diddordeb a'r cyhoedd yn ehangach.

## Pam rydym yn ymgynghori?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ar y Cod Ymarfer drafft am sut y gweinydda'r PSFA y pwerau cosb sifil a gaiff o'r Ddeddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adfer) 2025. Mae Adran 63 o'r Ddeddf PAFER yn amlinellu ymrwymiad i gyflwyno Cod Ymarfer ar weinyddu'r pwerau cosb sifil hyn cyn dechrau defnyddio'r pwerau.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 27 Chwefror 2026. Yn dilyn hyn, bydd y llywodraeth yn ymateb i ymatebion ymgynghoriad cyhoeddus o fewn 12 wythnos.

# Atodiad 1: hysbysiad preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau. Fe'i gwneir o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Eich Data

**Pwrpas**
Ein diben ni wrh brosesu eich data personol yw cael barn aelodau'r cyhoedd, seneddwyr a chynrychiolwyr sefydliadau a chwmnïau am bolisïau, cynigion adrannol, neu yn gyffredinol i gael barn y cyhoedd ar fater o ddiddordeb cyhoeddus.

**Y data**
Byddwn yn prosesu'r data personol canlynol: enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, teitl swydd (lle rhoddir un), a chyflogwr (lle rhoddir un), yn ogystal â barn.

Byddwn hefyd yn prosesu gwybodaeth fywgraffyddol ychwanegol am ymatebwyr neu drydydd partïon pan roddir hon yn wirfoddol.

**Sail gyfreithiol y prosesu**
Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw bod ei angen i berfformio'r dasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod cyhoeddus a roddwyd i'r rheolwr data. Yn yr achos hwn, ymgynghoriad statudol yw hwn ar bolisïau neu gynigion adrannol, neu gael data am farn pobl, er mwyn datblygu polisïau effeithiol, da.

Mae data personol sensitif yn ddata personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, cred grefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth o undeb llafur, a'r prosesu o ddata generig, data biometrig at ddiben adnabod person naturiol yn unigryw, data ynghylch iechyd neu ddata yn ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol person naturiol.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol sensitif, neu ddata am euogfarnau troseddol (pan fyddwch wedi'i roi yn wirfoddol), yw bod ei angen am resymau diddordeb cyhoeddus sylweddol ar gyfer gweithredu swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron, neu un o adrannau'r llywodraeth. Y swyddogaeth yw polisïau neu gynigion ymgynghoriad statudol adrannol, neu gael data am farn pobl, er mwyn datblygu polisïau effeithiol, da.

**Derbynwyr**
Pan fydd unigolion yn cyflwyno ymatebion, efallai y byddwn yn cyhoeddi eu hymatebion, ond ni fyddwn yn dweud pwy ydynt yn gyhoeddus. Byddwn yn ymdrechu i dynnu unrhyw wybodaeth a all arwain at adnabod unigolion.

Gellir cyhoeddi ymatebion a gyflwynir gan sefydliadau neu gynrychiolwyr sefydliadau yn llawn, oni bai y mynegir dymuniad i sylwadau aros yn gyfrinachol.

Pan na chyhoeddir gwybodaeth am ymatebion, gellir ei rhannu â swyddogion o fewn cyrff cyhoeddus eraill er mwyn helpu i ddatblygu polisi.

Gan y storir eich data personol ar ein seilwaith TG fe'u rhennir hefyd â'n proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau e-bost, a rheoli a storio dogfennau.

Gallwn rannu eich data personol pan fydd yn ofynnol dan y gyfraith, er enghraifft mewn perthynas â chais a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Cadw**
Cedwir gwybodaeth gyhoeddiedig yn gyffredinol am gyfnod amhenodol ar y sail fod yr wybodaeth o werth hanesyddol. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, data personol am gynrychiolwyr sefydliadau.

Cedwir ymatebion gan unigolion ar ffurf adnabyddadwy am dair blynedd calendr ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

**Pan nad yw data personol wedi cael eu casglu oddi wrthych chi**
Cawsom eich data personol gan ymatebwr i ymgynghoriad.

## Eich Hawliau

Mae gennych yr hawl i ofyn am wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael eu prosesu, ac i ofyn am gopi o'r data personol hynny.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gywiro unrhyw bethau anghywir yn eich data personol yn ddi-oed.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gwblhau unrhyw ddata personol anghyflawn, gan gynnwys trwy gyfrwng datganiad atodol.

Mae gennych yr hawl i ofyn bod eich data personol yn cael eu dileu os nad oes cyfiawnhad mwyach dros eu prosesu.

Mae gennych yr hawl dan amgylchiadau penodol (er enghraifft, lle mae'r cywirdeb wedi ei gwestiynu) i ofyn am gyfyngu ar y gwaith o brosesu'ch data personol.

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol pan y'u prosesir at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol.

Am unrhyw fanylion ychwanegol ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar gyer Ymgyngoriadau Swyddfa'r Cabinet yma Ymgyngoriadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet

## Trosglwyddiadau Rhyngwladol

Gan fod eich data personol yn cael eu storio ar ein seilwaith TG, a'u rhannu â'n proseswyr data, gellir eu trosglwyddo a'u storio'n ddiogel y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Pan fydd hynny'n digwydd bydd yn ddarostyngedig i diogelu cyfreithiol cyfatebol trwy defnyddio Cymalau Contract Model.

## Manylion Cyswllt

Y rheolwr data ar gyfer eich data personol yw Swyddfa'r Cabinet. Y manylion cyswllt ar gyfer y rheolwr data yw:

Cabinet Office
70 Whitehall, Llundain
SW1A 2AS

Ymholiadau Cyhoeddus: Ffurflen Gyswllt Ar-lein

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu cyngor annibynnol a monitro o ddefnydd Swyddfa'r Cabinet o wybodaeth bersonol.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddog Diogelu Data rheolwr y data yw:
dpo@cabinetoffice.gov.uk

## Cwynion

Os ydych yn ystyried bod eich data personol wedi cael eu camddefnyddio neu eu camdrafod, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu 0303 123 1113, neu casework@ico.org.uk. Mae unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth heb niweidio'ch hawl i geisio iawn trwy'r llysoedd.

# Cod Ymarfer Cosbau Sifil PSFA

## 1. Rhagymadrodd

C1. Ydy'r rhagymadrodd yn darparu digon o wybodaeth i ddeall pam y cynigir y cod ymarfer?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 2. Hawliau Gweithdrefnol

C2a. Ydy'r hawliau gweithdrefnol yn glir?

☐Ydyn
☐Nac ydyn
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

C2b. Oes unrhyw beth arall y byddech yn disgwyl i'r adran hon ei gynnwys?

☐Oes
☐Nac oes
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 3. Trosolwg

C3. O ddarllen yr adran hon o'r Cod, ydych chi'n glir ar y lefelau o oruchwyliaeth sy'n gysylltiedig â chosbau sifil, ac a yw'r broses a amlinellir yn yr adran hon yn ddigonol?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 4. Cwmpas

C4a. Ydych chi'n cytuno bod yr adran hon yn darparu digon o fanylion i ddeall cwmpas y Cod?

☐Ydw
☐Nac ydw
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

C4b. Oes unrhyw beth arall y byddech yn disgwyl ei weld i helpu i ddeall cwmpas y ddeddfwriaeth, ac a yw'r broses a amlinellir gan yr adran hon yn ddigonol?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 5. Swyddogion Awdurdodedig

5a. Ydy rolau Swyddog Awdurdodedig ac Uwch Swyddog Awdurdodedig yn glir i chi?

☐Ydyn
☐Nac ydyn
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

5b. Ydy'r broses ar sut mae achosion yn cael eu hatgyfeirio at y PSFA yn ddigonol ac yn glir i chi?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

5c. Ydych chi'n meddwl bod y cod ymarfer yn darparu digon o wybodaeth i ddeall ymagwedd y PSFA at fregusrwydd?

☐Ydw
☐Nac ydw
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

5d. Oes angen rhagor o wybodaeth ar yr adran hon i ddeall agwedd asesu achosion?

☐Oes
☐Nac oes
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 6. Pwerau Gwybodaeth

C6. Oes unrhyw wybodaeth ar goll o'r adran hon y byddech yn ei disgwyl, ac a yw'r broses a amlinellir gan yr adran hon yn ddigonol?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 7. Cosbau am Dwyll

C7a. Ydych chi'n canfod yr adran hon ar sut mae cosb sifil yn cael ei sefydlu yn hawdd ei

deall? Ydy'r wybodaeth yn glir a digonol?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod.
Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

C7b. Ydy'r adran hon o'r Cod yn esbonio'n glir sut mae cosb sifil yn cael ei chyfrifo?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod.
Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 8. Sylwadau sy'n ymwneud â chosbau sifil

C8. Yn gyffredinol, ydych chi'n credu bod yr adran hon ar sylwadau ynghylch cosbau sifil yn glir ac yn hawdd ei deall?

☐Ydw
☐Nac ydw
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod.
Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 9. Adolygiadau Mewnol o benderfyniadau Cosb Sifil

9. Ydy'r broses ynghylch sut y cynhelir adolygiad mewnol o benderfyniad cosb sifil yn ddigon clir i chi?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os hoffech ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod.
Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 10. Apeliadau sy'n ymwneud â Chosbau Sifil

C10. Ydy'r broses ar gyfer gosod cosb, gwneud sylwadau, adolygiadau mewnol ac apeliadau yn ddigonol o'r hyn a nodir yn y Cod Ymarfer hwn?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os nad yw, beth sy'n aneglur a sut y gellid ei gwella? Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 11. Pan na ellir gosod Cosbau Sifil

C11. Ydy'r Cod Ymarfer yn glir a chryno ynghylch pan na osodir cosbau?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 12. Gostwng Cosbau

C12. Gall y PSFA ostwng lefel y gosb. Mae hyn yn dibynnu ar yr unigolyn/sefydliad yn cydweithredu'n llawn ag ymchwiliad i'w hymddygiad twyllodrus, yn amodol ar ddatgeliad llawn o'r ffeithiau. Ydy'r Cod Ymarfer yn glir ar sut fydd y broses hon yn gweithio?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

## 13. Cosbau am beidio â chydymffurfio

C13. Ydy'r Cod Ymarfer yn darparu gwybodaeth ddigonol i'ch helpu chi i deall pam a sut y rhoddir Cosbau am beidio â chydymffurfio?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny

isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 14. Beth os yw unigolyn neu sefydliad yn meddwl bod gwall neu gamgymeriad?

C14a. Ydy'r adran hon yn rhoi digon o fanylion am y trefniadau diogelu a'r prosesau mewn grym os bydd gwall?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 15. Talu cosbau

C15a. Ydy'r ffordd o wneud taliad yn ddigon clir?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 16. Cosbau heb eu talu

C16a. Pan na chaiff cosb ei thalu, mae'r gosb yn creu taliadau ychwanegol, megis llog. Ydy'r broses hon wedi'i gwneud yn glir, ac a yw'r broses a nodir gan yr adran hon yn ddigonol?

☐Ydy
☐Nac ydy
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 17. Rheoli gordaliadau

C17. Ydych chi'n fodlon fod yr adran hon yn esbonio'r trefniadau diogelu a'r prosesau ynghylch gordaliadau?

☐Ydw
☐Nac ydw

☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 18. Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion

C18. Oes unrhyw beth arall yn yr adran hon y credwch y dylem ei gynnwys?

☐Oes
☐Nac oes
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 19. Rhestr termau

C19. Oes unrhyw beth ar goll o'r adran hon rydych yn meddwl y dylem ei gynnwys?

☐Oes
☐Nac oes
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.

### 20. Ychwanegol

C20. Oes unrhyw beth rydych yn meddwl ei fod ar goll o'r Cod neu lle mae angen rhagor o fanylion?

☐Oes
☐Nac oes
☐Dim barn

Os oes eisiau darparu rhagor o sylwadau arnoch i esbonio eich ateb, gwnewch hynny isod. Cyfyngwch eich ateb i 250 o eiriau.